**ATODIAD 1**
**Crynodeb o’r sylwadau a ddaeth i law o ran yr Ymgynghoriad ynghylch y ‘Canllawiau Cynllunio Atodol Ardaloedd Tirwedd Arbennig’ a’r ‘Canllawiau Cynllunio Atodol Mannau Agored’**

**‘Canllawiau Cynllunio Atodol Ardaloedd Tirwedd Arbennig’:**

| **Mater a godwyd gan yr ymatebydd** | **Sylw’r Awdurdod Cynllunio Lleol** | **Newid arfaethedig i’r Canllawiau?** |
|---|---|---|
| Yn gyffredinol, mae Cyngor Cymuned y Borth yn croesawu’r Canllawiau drafft ynghylch Ardaloedd Tirwedd Arbennig ac mae’n falch o weld hyd a lled y cwmpas ar draws y Sir ac yn enwedig fod y Borth ac Ynys-las wedi’u dynodi’n lleol fel Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) 1 a 2. | Wedi nodi’r sylw. | Dim newid |
| Mae Cyngor Cymuned y Borth yn cefnogi’r ardal ddaearyddol sy’n cael ei chwmpasu gan ATA1 ac ATA2 a’r cyfiawnhad dros y ffiniau. | Wedi nodi’r sylw. | Dim newid |
| Mae Cyngor Cymuned y Borth yn falch o weld bod ansawdd a chymeriad y dirwedd ei hun yn cael eu cydnabod, yn enwedig mewn ardal â nifer o ddynodiadau cadwraeth natur. | Wedi nodi’r sylw. | Dim newid |
| Mae Cyngor Cymuned y Borth yn cytuno â’r nodweddion allweddol a nodir ac mae’n falch o nodi bod yr ymdeimlad o ddiffeithwch, y golygfeydd a’r gorwel isel yn cael eu cydnabod fel rhinweddau pwysig a bod y rhain yn cael eu cynnwys | Wedi nodi’r sylw. | Ychwanegu’r pwynt a ganlyn at y rhestr o Nodweddion Allweddol ar gyfer ATA 1:<br><br>“Mae’n elwa ar fenthyg golygfeydd o Barc Cenedlaethol Eryri, ac mae’r Parc Cenedlaethol, yn ei dro, yn benthyg |

| **Mater a godwyd gan yr ymatebydd** | **Sylw’r Awdurdod Cynllunio Lleol** | **Newid arfaethedig i’r Canllawiau?** |
|---|---|---|
| yn y materion polisi a rheolaeth allweddol. Gall fod yn werth ychwanegu nodyn i ddatgan mai golygfeydd o Barc Cenedlaethol Eryri yw’r golygfeydd sy’n cael eu benthyg o’r gogledd, sef tirlun a warchodir yn genedlaethol, a bod y Parc Cenedlaethol yn ei dro yn benthyg golygfeydd o ATA 1. | | golygfeydd o’r ATA.” |
| Mae dwy o nodweddion yr amgylchedd adeiledig wedi’u hepgor o dan ATA 1, sef datblygiadau twristiaeth a gwyliau ac anheddiad arfordirol y Borth, a chanddo’i gymeriad ei hun, sy’n wahanol i nifer o aneddiadau mewndirol, gyda lliwiau a thai o wahanol gyfnodau. Cafodd y ddwy nodwedd hyn eu nodi o dan ATA eraill a byddai’n werth eu cynnwys o dan ATA 1. | Wedi nodi’r sylw. | Ychwanegu’r pwynt a ganlyn at y rhestr o Nodweddion Allweddol ar gyfer ATA 1:<br><br>“Ardaloedd lle ceir datblygiadau twristiaeth”<br><br>Ac<br><br>“Yn cynnwys y Borth Isaf, sef pentref gwyliau arfordirol lle ceir adeiladau o wahanol gyfnodau.” |
| Rydym yn fodlon iawn â’r Materion Polisi a Rheolaeth Allweddol ar gyfer ATA 1.<br><br>Byddai’n ddefnyddiol cael argymhelliad rheolaeth ychwanegol sy’n ymwneud ag arwyddion, sy’n hollbwysig i’r ardal at ddibenion cadwraeth ac at ddibenion twristiaeth, hamdden a busnes. | Wedi nodi’r sylw. | Ychwanegu’r pwynt a ganlyn at y rhestr o Faterion Polisi a Rheolaeth Allweddol ar gyfer ATA 1:<br><br>“Rheoli effaith weledol arwyddion a hysbysebion.” |
| Rydym yn nodi bod y Borth Uchaf wedi’i | Mae’r Canllawiau Cynllunio Atodol yn | Dim newid. |

| **Mater a godwyd gan yr ymatebydd** | **Sylw’r Awdurdod Cynllunio Lleol** | **Newid arfaethedig i’r Canllawiau?** |
|---|---|---|
| hepgor o ATA 1 ac ATA 2. Cydnabyddir bod ATA 2 o dan bwysau i ddatblygu, yn enwedig o ran datblygiadau sy’n ymwneud â thwristiaeth, ac y dylid ystyried cyrion aneddiadau. Byddai modd ehangu hyn i Ymyl Anheddiad/Datblygiad i gynnwys nifer o wahanol fathau o newidiadau. Er y gall datblygiadau yn yr ardal gyfagos effeithio ar ATA 2, mae Cyngor Cymuned y Borth yn deall bod yr ardal hon wedi’i dynodi’n lleol oherwydd ei phwysigrwydd o ran daeareg a chynefinoedd ac na fydd llawer o ddatblygiadau’n effeithio ar hyn. | cydnabod mai un o Nodweddion Allweddol ATA 2 yw ei bod “O dan bwysau i ddatblygu.” Felly, un o’i Materion Polisi a Rheolaeth Allweddol yw: “Ymdrin ag ansawdd y dirwedd ar gyrion aneddiadau drwy waith cynllunio gofalus, rheolaethau cynllunio a chanllawiau”. Law yn llaw â pholisïau tirwedd eraill y CDLl, sef DM17, DM19 a DM20, mae’r CDLl yn ymdrin â materion sy’n ymwneud ag effaith datblygu ar y dirwedd. | |
| Dylid ychwanegu’r Cwrs Golff at y nodweddion ym mharagraff 3.1.19. | Wedi nodi’r sylw. | Newid paragraff 3.1.19 fel a ganlyn:<br><br>“…Ffurfir pen deheuol yr ATA gan Graig-glais (Constitution Hill), sydd hefyd yn arddangos Grutiau Aberystwyth, **a Chwrs Golff hanesyddol Aberystwyth**…” |
| Yn gryno, bydd Cyngor Cymuned y Borth yn rhoi sylw i’r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn os cânt eu mabwysiadu’n ffurfiol, ochr yn ochr â’r CDLl, pan fydd yn trafod materion perthnasol y Cyngor. Mae’n croesawu’r Canllawiau Cynllunio Atodol a’r defnydd cadarnhaol ohonynt fel ffynhonnell wybodaeth, sy’n berthnasol i Fiosffer Dyfi, ac o ran ystyriaethau | Wedi nodi’r sylw. | Dim newid |

| Mater a godwyd gan yr ymatebydd | Sylw’r Awdurdod Cynllunio Lleol | Newid arfaethedig i’r Canllawiau? |
|---|---|---|
| perthnasol i gefnogi polisïau’r CDLl. | | |
| Mae Cymdeithas Mynyddoedd y Cambria’n croesawu’r cyfle hwn i ymateb i Ganllawiau Cynllunio Atodol drafft yr Awdurdod Lleol ynghylch Ardaloedd Tirwedd Arbennig. | Wedi nodi’r sylw. | Dim newid |
| Er gwaethaf rhywfaint o bryder nad oes gan Ganllawiau Cynllunio Atodol yr un grym cynllunio â dynodiad statudol, hoffai Cymdeithas Mynyddoedd y Cambria ychwanegu ei chefnogaeth at Ganllawiau Cynllunio Atodol drafft yr Awdurdod Lleol. Yn ei barn hi, bydd disgrifyddion pob ATA, sy’n seiliedig ar ymchwil da, yn cynorthwyo pawb i wneud penderfyniadau cynllunio cywir yn y tirweddau hyn sy’n uchel eu gwerth. | Wedi nodi’r sylw. | Dim newid |
| Mae Cymdeithas Mynyddoedd y Cambria’n pryderu am un o’r ‘Materion Polisi a Rheolaeth Allweddol’ a bennwyd ar gyfer ATA 12 a 13, sy’n tynnu sylw at reoli effaith gronnol datblygiadau ynni (3.1.97, tudalen 68 a 3.1.106, tudalen 73).<br><br>Mae’r Gymdeithas yn amau a yw’r canllawiau hyn yn ddigon grymus i atal Datblygiadau o Bwysigrwydd Cenedlaethol rhag cael blaenoriaeth. Mewn cyferbyniad, | Nid swyddogaeth y Canllawiau Cynllunio Atodol yw atal datblygiadau ynni adnewyddadwy mewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig ac nid yw’n trechu’r gofynion a bennir yn Nodyn Cyngor Technegol 8. Dylid ystyried y Canllawiau Cynllunio Atodol ochr yn ochr â holl bolisïau’r CDLl, sy’n pennu cydbwysedd rhwng llawer o fuddiannau sy’n gwrthdaro. O ran datblygiadau ynni adnewyddadwy, bydd polisïau LU25, DM17, DM18, DM19, DM20 a DM21 yn | Dim newid |

| Mater a godwyd gan yr ymatebydd | Sylw’r Awdurdod Cynllunio Lleol | Newid arfaethedig i’r Canllawiau? |
|---|---|---|
| yn yr un adrannau yn y ddogfen, mae’r Gymdeithas yn cefnogi’r Awdurdod o ran defnyddio dull ecosystem yn yr ardaloedd ucheldir bregus hyn. | ceisio sicrhau nad yw cynigion yn cael effaith andwyol sylweddol ar ansawdd y dirwedd. | |
| Mae Cymdeithas Mynyddoedd y Cambria’n nodi bod llawer o’r gwaith paratoadol tuag at ddynodi’r ATA wedi’i gyflawni gan ddefnyddio system LANDMAP Cyfoeth Naturiol Cymru. Ers sawl blwyddyn, mae’r Gymdeithas wedi cydnabod pa mor bwerus yw’r adnodd GIS hwn o ran darbwyllo eraill o rinweddau tirwedd. Dylid cymeradwyo’r Awdurdod am ddefnyddio holl haenau’r system i helpu i adeiladu’r achos dros bob ATA. | Wedi nodi’r sylw. | Dim newid |
| Yn ôl LANDMAP, mae gan dref Aberystwyth dirwedd o werth diwylliannol a hanesyddol neilltuol, ond nid ystyrir ei bod yn Ardal Tirwedd Arbennig. Byddai’n ddefnyddiol pe bai’r rhesymau dros hyn yn cael eu cynnwys yn y Cyfiawnhad dros y Ffiniau (3.1.21, tudalen 29). | Nid yw’r Canllawiau Cynllunio Atodol yn cynnwys cyfiawnhad methodolegol llawn i egluro pam nad yw ardaloedd penodol yn rhan o’r Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Rhoddir y cyfiawnhad hwn yn y gwaith cefndir cychwynnol a wnaed gan yr ymgynghorwyr, TACP, yn 2011. Gellir lawrlwytho’r ddogfen o wefan y Cyngor Sir.<br><br>http://www.ceredigion.gov.uk/utilities/action/act_download.cfm?mediaid=24003&langtoken=eng<br><br>Yn achos Aberystwyth, nid oedd ganddi ddigon o feysydd agwedd LANDMAP a | Dim newid |

| **Mater a godwyd gan yr ymatebydd** | **Sylw’r Awdurdod Cynllunio Lleol** | **Newid arfaethedig i’r Canllawiau?** |
|---|---|---|
| | oedd wedi’u gwerthuso fel rhai ‘uchel’ neu ‘ragorol’. Roedd hi’n ofynnol cael o leiaf dri. Mewn ardaloedd lle nad oes ATA ar gael, sylwch y bydd holl wybodaeth LANDMAP yn dal i fod yn ystyriaeth berthnasol ac y bydd hi’n dal i fod yn ofynnol i bob datblygiad fodloni gofynion Polisi DM17: Y Dirwedd yn Gyffredinol. | |
| Fodd bynnag, mae’n ddefnyddiol nodi pwynt 2.5.3 (tudalen 17): ‘os nad yw tir y mae LANDMAP wedi nodi ei fod yn arbennig o werthfawr wedi'i gynnwys o fewn ATA, … bydd gwybodaeth LANDMAP ei hun yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, fel sy'n ofynnol o dan Bolisi DM17’. Bydd Cyngor Tref Aberystwyth yn nodi hyn pan fydd yn rhoi sylwadau am geisiadau cynllunio yn y dyfodol, lle bo’n briodol. | Wedi nodi’r sylw. | Dim newid |

**‘Canllawiau Cynllunio Atodol Mannau Agored’**

| Mater a godwyd gan yr ymatebydd | Sylw’r Awdurdod Cynllunio Lleol | Newid arfaethedig i’r Canllawiau? |
|---|---|---|
| Sylw am y rheol 10 ystafell wely – gall fod bwlch yn y rheol hon, sef bod modd gofyn am ganiatâd cynllunio ar gyfer aneddiadau â dwy ystafell wely, er enghraifft, a phan fydd yr annedd wedi’i phrynu neu pan fydd prynwr yn mynd i weld yr eiddo, gall wneud cais neu gynnig i rannu gofod yr ystafelloedd gwely i gynyddu nifer yr ystafelloedd gwely – ddim yn siŵr sut y gellir mynd i’r afael â hyn, fodd bynnag. | Mae gan berchennog tŷ hawl i newid y tu mewn i’r eiddo fel y gwêl yn dda. Ar yr amod bod y datblygiad wedi’i adeiladu’n unol â’r cynlluniau cymeradwy, ni all yr Awdurdod Cynllunio Lleol gymryd camau gorfodi yn erbyn unrhyw newidiadau mewnol a all ddigwydd yn y dyfodol. | Dim newid |
| Tudalen 13, paragraff un, ynghylch datblygiadau lle mae 20 ystafell wely neu lai – yma, dylid ystyried y man agored/man chwarae sydd ar gael i’r datblygiad – er enghraifft, dylai fod yn ofynnol o hyd i ddatblygiad bach heb fan chwarae gerllaw ystyried lle y bydd plant yn chwarae. | Oherwydd swm y tir sydd ar gael mewn datblygiad llai, mae’r canllawiau’n awgrymu y dylai tirlunio cyffredinol y safle annog digon o symud a gweithgarwch.<br><br>Os oes man chwarae wedi’i leoli wrth ymyl datblygiad newydd arfaethedig, neu’n agos ato, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn annog datblygwyr i greu llwybrau rhwng y safle newydd a’r man agored sy’n bodoli eisoes. | Dim newid |
| Sylw cyffredinol – a fyddai modd cynnwys unrhyw beth ynghylch creu mannau chwarae e.e. drwy ychwanegu gafaelion dringo ar gyfer y dwylo a’r traed at y waliau cynnal a llwybrau i annog plant i gerdded a neidio ac ati, ac ynghylch ‘llwybrau diogel’ | Bydd cynllun safleoedd a symudiadau o’u hamgylch yn cael eu trafod fel rhan o’r Canllawiau Cynllunio Atodol ynghylch yr Amgylchedd Adeiledig sydd wrthi’n cael eu drafftio. Bwriedir i’r Cabinet a’r Cyngor ystyried y Canllawiau hynny cyn cynnal | Newid y Canllawiau arfaethedig fel a ganlyn:<br><br>Adran 6, tudalen 14, cynnwys testun ychwanegol ar ddiwedd paragraff 7: “Dylai datblygwyr asesu pa rai o |

| | | |
|---|---|---|
| o amgylch datblygiadau newydd er mwyn i anghenion cerddwyr ac anghenion chwarae plant gael yr un ystyriaeth ag anghenion gyrwyr ceir? | ymgynghoriad arnynt dros yr haf.<br><br>Fodd bynnag, byddai modd cynnwys testun yn y Canllawiau ynghylch Mannau Agored i roi mwy o anogaeth i ddatblygwyr ystyried y nodweddion y byddai modd eu haddasu i’w defnyddio fel mannau agored. | nodweddion presennol y safle y byddai modd eu cynnwys yn y man agored e.e. coed sydd yno eisoes”<br><br>Hefyd, dylid cynnwys ar ddiwedd y paragraff olaf:<br>“Dylid ystyried y Canllawiau Cynllunio Atodol Dylunio a Pholisi DM09: Dylunio a Symud wrth ddylunio mannau agored, gan sicrhau bod y llwybrau at y mannau agored ac oddi yno yn ddiogel.” |
| Mae’r Canllawiau’n cynnwys rhai pwyntiau da ynghylch yr angen am fannau agored a Seilwaith Gwyrdd, ynghyd â’u buddion i drigolion yr ardal. Mae’n ddefnyddiol eu bod yn cynnwys mannau agored a fyddai’n cael eu hystyried fel rhai ‘preifat’, sy’n cael eu datblygu ar gyfer trigolion safle tai neu swyddfeydd ac ati. Mae Cyngor Tref Aberystwyth wedi rhoi sylwadau mewn ymatebion i geisiadau cynllunio am yr angen i gynnwys mannau agored mewn datblygiadau o’r fath. | Wedi nodi’r sylw. | Dim newid |
| Ceir disgrifiadau da o’r gwahanol fathau o fannau gwyrdd, ynghyd ag awgrymiadau defnyddiol am ffyrdd o’u darparu mewn datblygiadau newydd (tudalennau 7 – 10). | Wedi nodi’r sylw. | Dim newid |
| Mae Tabl 1 (cyfrifiad darpariaeth man agored yn seiliedig ar nifer yr ystafelloedd gwely a gynigir fel rhan o’r datblygiad) | Wedi nodi’r sylw. | Dim newid |

| | | |
|---|---|---|
| (tudalen 12) yn rhoi braslun defnyddiol o’r math o ddarpariaeth sydd ei hangen mewn datblygiad. | | |
| Gwelir mai Man Gwyrdd Amwynder Naturiol yw’r math o ddarpariaeth sydd ei angen mewn datblygiadau llai, ac mae’r rhan fwyaf o’r ceisiadau cynllunio yn Aberystwyth yn ymwneud â datblygiadau o’r maint hwn (o gofio nad oes ardaloedd heb eu datblygu yn y dref). Safleoedd tir llwyd yw holl safleoedd datblygu’r dref ac mae’n dda gweld ei bod yn ofynnol i ddatblygwyr ddarparu mannau agored fel rhan o’u datblygiadau, gan wella’r amgylchedd i’r trigolion a’r defnyddwyr. Mae tudalen 13 yn rhoi braslun defnyddiol sy’n dangos maint y mannau agored y dylid eu darparu mewn datblygiadau, yn ôl eu maint. Mae’r egwyddorion ar gyfer dylunio mannau chwarae (tudalennau 15-16) yn rhoi canllaw defnyddiol i ddatblygwyr. | Wedi nodi’r sylw. | Dim newid |
| Dylai’r Canllawiau hyn gyfeirio at fanteision coed i’r amgylchedd ac i ddatblygiadau. O’i phlannu mewn man priodol, gall hyd yn oed un goeden wella’r amgylchedd lleol yn sylweddol a dylid tynnu sylw at hyn yn y canllawiau. | Byddai modd ychwanegu testun at y Canllawiau sy’n pwysleisio bod i unrhyw fath o dirlunio fudd cadarnhaol.<br><br>Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol ynghylch yr Amgylchedd Adeiledig, sydd wrthi’n cael eu drafftio, yn cynnwys adran am dirlunio. Bwriedir i’r Cabinet a’r Cyngor ystyried y Canllawiau hynny cyn cynnal ymgynghoriad arnynt dros yr haf. | Newid y Canllawiau arfaethedig fel a ganlyn:<br><br>Adran 6, tudalen 14, cynnwys testun ychwanegol ar ddiwedd paragraff 7:<br><br>“Gall hyd yn oed ychydig bach o dirlunio fod o fudd i’r amgylchedd lleol.” |

| | | |
|---|---|---|